

**Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 Dydd Mercher, 8 Mai 2013
 Ystafell y Teras 2 a 3, Prifysgol Bangor**

Yn bresennol:

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Dylan Foster Evans, Dr Carwyn Jones, Dr Elin Haf Gruffydd Jones, Gwilym Dyfri Jones, Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Dr Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Yr Athro Deri Tomos
- Aelodau (Sefydliad): Phil Ainsworth, Julie Brake, Dr Geraint Cunnick, Dr Lisa Lewis, Dr Siân Wyn Siencyn, Dr Enlli Thomas
- Aelodau (Myfyrwyr): Manon George
- Aelodau (Colegau Cymru): Llinos Roberts
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd), Nia Brown (Swyddog Datblygu)
- Cyflwyniad gan: Sel Williams (Prifysgol Bangor)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd pawb i Fangor gan Wyn Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor. 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Bangor am letya'r cyfarfod ac i Iona Rhys ac Eirian Jones am hwyluso manylion y dydd. 1.3. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.4. Croesawyd Llinos Roberts i'w chyfarfod cyntaf yn cynrychioli Colegau Cymru. 1.5. Cafwyd munud o dawelwch ar ddechrau'r cyfarfod, er cof am Eilir Hedd Morgan, darlithydd disglair ym maes y Gwyddorau ac aelod o Gynllun Staffio'r Coleg, a laddwyd mewn damwain yn gynharach eleni.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Ymddiheuriadau a Datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Siwan Davies, Dr Gwenno Ffrancon, Adam Jones, Dr Anwen Jones, Dr Gina Morgan, Dr Angharad Naylor, yr Athro Gwynedd Parry, Dr Gwilym Roberts, Alys Rosser, Dr Gwennan Schiavone a Carys Swain. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2013	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir; ac eithrio nodi sylwadau Dr Dylan Foster Evans ar gyfer cofnod 9 – Cynllun Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg. 3.2. Cytunwyd i ddiwygio'r cofnod.	Swyddog Datblygu i ddiwygio'r cofnod	Mai 2013
4. Aelodaeth (BA/13/05/04)	4.1. Gan ddiolch iddynt am eu ffyddlondeb a'u hymwneud â'r Coleg argymhellwyd ail-benodi'r pedwar aelod isod am dymor pellach ar gyfer y cyfnod 2013/14 hyd 2018/19: <ul style="list-style-type: none"> • Dr Dylan Foster Evans • Gwilym Dyfri Jones • Yr Athro Densil Morgan • Dr Eleri Pryse 4.2. Cadarnhawyd yr enwebiadau gan y Bwrdd. 4.3. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y broses ail-benodi, cadarnhawyd fod yr argymhelliad i ail-benodi yn dilyn trafodaeth ffurfiol gan reolwyr y Coleg. Nodwyd na fyddai'r Coleg yn ail-benodi aelodau heb ystyriaeth briodol. 4.4. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar drafodaethau gyda'r corff myfyrwyr ynghylch nifer eu cynrychiolwyr ar y Bwrdd Academaidd.		
5. Pwyllgor Cydweithio Academaidd (BA/13/05/05)	5.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ynghylch sefydlu'r Pwyllgor Cydweithio Academaidd. Nodwyd cefndir arbenigol yr aelodau ar ansawdd a phwysigrwydd eu cyngor ar ddilysu modiwlau ar y cyd rhwng y sefydliadau.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>5.2. Derbyniwyd papur Dr Ioan ap Dewi, er gwybodaeth, a nodwyd fod trafodaethau'r pwyllgor wedi symud ymlaen ers llunio'r papur.</p> <p>5.3. Adroddwyd bod strategaeth academaidd y Coleg yn blaenoriaethu cynyddu'r ddarpariaeth gydweithredol ac yn sgil hynny bod cynlluniau mewn Athroniaeth ac Astudiaethau Rhan-amser wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor eisoes.</p> <p>5.4. Nodwyd mai Deon y Coleg yw cynrychiolydd y Bwrdd Academaidd ar y pwyllgor, bod y pwyllgor yn atebol i'r Bwrdd Academaidd ac y byddai adroddiad cynnydd yn eitem ar yr agenda ymhob cyfarfod.</p> <p>5.5. Argymhellwyd y dylid gwahodd Huw Morris, fel Cadeirydd y pwyllgor yn aelod o'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>5.6. Ar ôl trafodaeth gan yr aelodau eglurwyd sut y byddai'r pwyllgor yn asesu unrhyw gynlluniau cydweithredol wrth iddynt gael eu cyflwyno gan y sefydliadau.</p> <p>5.7. Awgrymwyd bod cyfle i ystyried ffyrdd o gefnogi'r sefydliadau mewn perthynas â phenodi arholwyr allanol cyfrwng Cymraeg.</p> <p>5.8. Nodwyd parodrwydd Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, trwy Dr Siân Wyn Siencyn, i beilotu'r broses cyddilysu.</p>	<p>Estyn gwahoddiad ffurfiol</p> <p>SWS i ddarparu papur</p>	<p>Mai 2013</p> <p>Hydref 2013</p>
<p>6. Cynllun Staffio Academaidd (BA/13/05/06)</p>	<p>6.1. Cyflwynwyd papur drafft ar ddirchafiadau a chyfnodau sabothol gan y Cofrestrydd. Cafwyd trafodaeth ac adborth defnyddiol gan y Bwrdd i ddatblygu'r drafft.</p> <p>6.2. <u>Dyrchafiadau:</u> Crybwyllwyd pryder aelodau y gallai darlithwyr y Coleg deimlo'n israddol o weld y rheolau a'r gofid na fyddai cyfle i wobrwyo darlithwyr teilwng. Yn ogystal crybwyllwyd pwysigrwydd ymrwymiad sefydliadol i ddatblygiad proffesiynol darlithwyr. Nodwyd bod angen ail-ddrafft gan ganolbwyntio ar sefyllfa'r unigolyn, statws</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>ariannu'r unigolyn gan y Coleg ac o ran cyfrifoldebau nodwyd fod y Bwrdd Academaidd yn ffafrio opsiwn 8b.</p> <p>6.3. <u>Cyfnod sabothol</u>: Trafodwyd trefniadau ar gyfer ariannu dysgu yn ystod cyfnod sabothol, sefyllfa darlithwyr nad oedd ar lwybrau ymchwil a chwestiynau ynghylch cyhoeddi ffrwyth ymchwil drwy gyfrwng y Saesneg. Nododd y swyddogion y byddent yn adlewyrchu'r pwyntiau a godwyd yn y fersiwn derfynol gan bwysleisio'r egwyddor fod holl gyllid y Coleg i'w ddefnyddio er budd darpariaeth ac ymchwil cyfrwng Cymraeg.</p> <p>6.4. Argymhellwyd cyflwyno fersiwn diwygiedig o'r papur i'r cyfarfod nesaf.</p>	Cofrestrydd i ail-gyflwyno'r papur	Gorffennaf 2013
7. Cynllunio Pynciol	<p>7.1. Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd yn amlinellu'r cynnydd yn y cynlluniau pynciol.</p> <p>7.2. Nodwyd bod templed wedi ei baratoi sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfanswm buddsoddi • Tablau yn meintioli buddsoddiad fesul prifysgol a blwyddyn • Datganiad yn nodi cyd-destun buddsoddi • Targedau fesul prifysgol • Targedau 5 mlynedd yn ogystal â 2 flynedd. <p>7.3 Nodwyd mai'r camau nesaf fyddai gosod pob cynllun ar y templed newydd, cynnal dadansoddiad buddsoddiad, creu tabl buddsoddiad cenedlaethol a thynnu'r targedau at ei gilydd yn genedlaethol.</p>		
8. Cymeradwyo Cynllun y Gyfraith	<p>8.1. Nodwyd bod Cynllun y Gyfraith wedi ei osod yn y templed newydd ac eithrio diffinio targedau.</p> <p>8.2. Cymeradwywyd cynnwys y cynllun gan y Bwrdd.</p> <p>8.3. Argymhellwyd cyflwyno'r Cynllun, er gwybodaeth yn unig, yn y cyfarfod nesaf.</p>	Ychwanegu targedau	Gorffennaf 2013

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
9. Cynlluniau i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf	<p>9.1. Nodwyd cynnydd yn y cynlluniau Daearyddiaeth, Amaethyddiaeth a Gwyddor Amgylchedd, Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, Cerddoriaeth, Ieithoedd Modern a Busnes.</p> <p>9.2. Adroddwyd fod y cynllun Daearyddiaeth bron yn barod ar wahân i'r tabl cyllido.</p> <p>9.3. Adroddwyd fod y cynllun Cymraeg wedi ei ail-ddrafftio a bod angen ei osod yn y templed.</p> <p>9.4. Adroddwyd bod y cynlluniau Cerddoriaeth ac Ieithoedd Modern ar ffurf drafft terfynol ac, i wahanol raddau, yn wynebu heriau i gyrraedd targedau myfyrwyr.</p> <p>9.5. Adroddwyd bod y cynlluniau Busnes a Gwyddor Chwaraeon ar ffurf drafft.</p>	<p>Cyflwyno Cynlluniau terfynol i'r Bwrdd Academaidd i'w cymeradwyo</p>	<p>Gorffennaf 2013</p>
10. Cynlluniau newydd	<p>10.1 Cyflwynwyd cynlluniau Mathemateg a Ffiseg, Polisi Cymdeithasol a Chymdeithaseg a Throsedddeg am y tro cyntaf.</p> <p>10.2 Adroddwyd ar lwyddiant diweddar Prifysgol Aberystwyth ym maes Mathemateg a Ffiseg a bod cynlluniau gan brifysgolion Abertawe a Chaerdydd ar y gweill. Nodwyd pryder bod niferoedd cymharol fychan ar draws y tri lleoliad.</p> <p>10.3 Adroddwyd bod y Cynllun Polisi Cymdeithasol a Chymdeithaseg wedi ei lunio dan arweiniad Prifysgol Bangor ond serch hynny'n hynod gydweithredol.</p> <p>10.4 Adroddwyd bod y Cynllun Trosedddeg wedi ei lunio gan Grŵp Tasg a Gorffen a bod cyfle euraid yma ond yn anffodus prin yw'r addysgwyr. Nodwyd bod niferoedd bychan ym maes Astudiaethau Heddlua yn ogystal.</p> <p>10.5 Nodwyd y byddai cynlluniau Addysg a Phlentyndod, Diwydiannau Creadigol a Hanes a Diwinyddiaeth, Nyrsio a Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Gwleidyddiaeth yn dod gerbron y Bwrdd maes o law.</p>	<p>Cyflwyno Cynlluniau diwygiedig i'r Bwrdd Academaidd</p>	<p>Gorffennaf 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
11. Anrhydeddu arloeswyr addysg uwch	<p>11.1. Agorwyd trafodaeth yn dilyn derbyn llythyr gan yr Athro Emeritws Gareth Roberts yn awgrymu anrhydeddu arloeswyr addysg uwch.</p> <p>11.2. Nodwyd y pwysigrwydd o anrhydeddu unigolion haeddiannol, ar fyrder, a natur gyfrinachol y pwnc.</p> <p>11.3. Cytunwyd y dylid cylchredeg neges yn gwahodd aelodau'r Bwrdd Academiaidd yn unig i gynnig enwau ar gyfer anrhydeddu Cymrodyr y Coleg ac am syniadau ar gyfer anrhydeddau/gwobrau eraill i'w gosod gerbron y Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p>	Swyddog Datblygu	Mai 2013
12. Astudiaethau Cyfieithu	<p>12.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau ym maes Astudiaethau Cyfieithu.</p> <p>12.2. Adroddwyd y byddai penodiad ar gyfer swydd Cydlynnydd Cenedlaethol cyn diwedd tymor yr haf.</p>		
13. Tystysgrif Sgiliau Iaith	<p>13.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ynghylch y Dystysgrif Sgiliau Iaith.</p> <p>13.2. Diolchwyd i bawb a oedd wedi bod ynghlwm â'r arholiadau diweddar a bod y papurau yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.</p> <p>13.3. Nodwyd bod y deunydd cefnogi wedi creu argraff ar aelodau'r Bwrdd.</p>		
14. Ysgoloriaethau Israddedig	<p>14.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau yn y maes Ysgoloriaethau Israddedig.</p> <p>14.2. Adroddwyd bod y drafodaeth yn parhau a bod seminar wedi ei drefnu yn Aberystwyth yn ystod Mehefin 2013.</p> <p>14.3. Eglurwyd y byddai cynllun gwahanol yn y dyfodol i sicrhau dyfodol yr ysgoloriaethau ond byddai'r ysgoloriaethau cymhellant yn parhau yn yr un ffurf.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
15. Materion gan y Myfyrwyr	15.1. Nodwyd bod cyfle i'r Coleg greu llwyfan i fyfyrwyr a chreu ymdeimlad o berthyn wrth drefnu cynhadledd i israddedigion gan fod llais gan ôlraddedigion eisoes. Eglurwyd bod trafodaeth gyda UCM ond bod angen i'r syniadau ddod wrth y myfyrwyr cyn y gallai'r Coleg weithredu ond ychydig fyddai'r cymorth ymarferol gyda hyn.		
16. Materion o'r Canghennau	16.1. Nodwyd y bwriad o gynnwys y materion a godwyd gan y canghennau ynghylch y paneli pwnc ar agenda'r cyfarfod yn yr Hydref.	Swyddogion y Coleg	Hydref 2013
17. Materion yn codi	<p>17.1. <u>Dyfarniadau Staffio</u> Cafwyd adroddiad llafar ar ddyfarniadau staffio gan y Prif Weithredwr. Nodwyd y byddai modd ymateb i gylchlythyr a oedd ar fin ei ddsbarthu ynghylch y drefn o ddyfarnu. Byddai'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn penderfynu ar y broses derfynol ar 19 Mehefin 2013.</p> <p>17.2. <u>Ysgoloriaethau Ymchwil</u> Nodwyd bod 28 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer yr ysgoloriaethau ymchwil a oedd yn ymddangos yn fwy poblogaidd ers sylwadau'r Bwrdd Academaidd. Byddai'r panel dyfarnu yn cwrdd ar 20 Mai 2013.</p> <p>17.3. <u>Cofrestr presenoldeb</u> Nodwyd bod cofrestr presenoldeb yn cael ei chadw a fydd yn cael ei ystyried wrth edrych ar ail-benodi yn y dyfodol.</p>		
18. Cyflwyniad ar Gynllun Academaidd y Coleg	<p>18.1. Cafwyd cyflwyniad gan Sel Williams, Prifysgol Bangor, ar Gynllun Academaidd y Coleg.</p> <p>18.2. Diolchwyd iddo am ei sylwadau treiddgar a chafwyd trafodaeth bositif am gynnwys y cyflwyniad.</p> <p>18.3. Croesawyd y sail athronyddol y tu ôl i'r sylwadau a oedd yn atgoffa addysgwyr o genhadaeth y Coleg a bod</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>pwrpas hybu gweledigaeth ieithyddol a diwylliannol Cymreig ar draws pob pwnc. Nodwyd bod y maes iechyd a hyfforddi athrawon eisoes yn ceisio cadw gweledigaeth a pholisïau Cymraeg fel rhan ganolog o'u cyrsiau.</p>		
19. UFA	<p>19.1. Adroddwyd y bu cyfarfod rhwng y Gymdeithas Ddysgedig a'r Coleg a byddai cyfarfodydd mwy rheolaidd yn y dyfodol gan gynnwys trefnu darlith flynyddol ar y cyd.</p> <p>19.2. Ystyriwyd a chytunwyd ar y bwriad o dderbyn cyflwyniadau gan y sefydliadau ar eu darpariaeth yn y Bwrdd Academaidd.</p> <p>19.3. Nodwyd penodiad Dr Eleri Pryse fel Cadeirydd Bwrdd Golygyddol Gwerddon a'i llongyfarch ar hynny.</p>	Swyddog Datblygu a'r Swyddogion Cangen i drefnu	Hydref 2013
20. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	<p>20.1. Diolchwyd i bawb am eu mewnbwn a nodwyd y cynhelir cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Academaidd ar 17 Gorffennaf 2013 ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd pan drefnir gweithdy cyn y cyfarfod.</p> <p>20.2. Nodwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2013/14 a 2014/15:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 16 Hydref 2013, Caerfyrddin • 5 Chwefror 2014, Aberystwyth • 7 Mai 2014, Caerdydd • 15 Hydref 2014, Prifysgol De Cymru • 4 Chwefror 2015, Caerfyrddin • 13 Mai 2015, Prifysgol Glyndŵr 		